Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Yr Hendre**
**Ffordd Cae Philips**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 2AT**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Yr Hendre

Lleolir yr ysgol yng Nghaernarfon yn Sir Gwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 398 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae'r disgyblion yn cael eu rhannu'n 16 dosbarth.

Tros dreigl tair blynedd, mae tua 22% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae llawer o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 22% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol o 21%. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ers yr arolygiad diwethaf ym mis Chwefror 2013, mae'r strwythur staffio wedi newid yn sylweddol. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gweledigaeth y pennaeth i godi safonau, datblygu hyder, annibyniaeth a lles disgyblion wedi'i sefydlu'n gadarn. Mae'r holl staff yn atgyfnerthu a hyrwyddo'r gwerthoedd hyn yn llwyddiannus ac yn cydweithio'n dda i wireddu'r weledigaeth trwy ddatblygu darpariaeth yr ysgol a chodi safonau. Mae'r pennaeth wedi sefydlu ac asio tîm arwain hynod effeithiol sy'n cydweithio i osod cyfeiriad strategol pendant.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r gefnogaeth sensitif i'r disgyblion mwyaf bregus. Mae'r staff yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol yn effeithiol iawn. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn gwneud defnydd trylwyr a phwrpasol o'r wybodaeth ddaw trwy'r systemau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr wedi mireinio'r prosesau hunanarfarnu ac yn monitro ac arfarnu perfformiad yr ysgol yn effeithiol. O ganlyniad, erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd buddiol ac yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Datblygu llais disgyblion er mwyn iddynt gael mwy o gyfrifoldebau a chyfleoedd i wneud penderfyniadau pwysig sy’n effeithio ar fywyd a gwaith yr ysgol.

A2 Gwella presenoldeb

A3 Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu’r ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â sut mae’r ysgol yn cefnogi disgyblion bregus a’u rhieni ynghyd â disgyblion ag anghenion penodol, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau llawer o ddisgyblion yn is na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys disgyblion ag anghenion ychwanegol, yn gwneud cynnydd buddiol ac yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn.

Mae llawer o ddisgyblion meithrin yn gwrando'n dda ac yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth siarad â chyfoedion ac oedolion. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio ystod o eirfa a phatrymau iaith yn fedrus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau llafar yn llwyddiannus yn y ddwy iaith, gan fynegi eu barn a chymryd rhan mewn trafodaethau yn gynyddol hyderus. Ar frig yr ysgol, mae medrau trawsieithu rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn. Maent yn ymestyn eu brawddegau'n llwyddiannus wrth drafod eu gwaith yn aeddfed.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n effeithiol. Mae'r disgyblion meithrin yn dechrau adnabod llythrennau a seiniau yn gynnar ac yn datblygu hyn yn llwyddiannus yn y dosbarth derbyn. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr medrus. Maent yn trafod cynnwys storïau, fel Y Tri Mochyn Bach, yn aeddfed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ddeallus a chyda rhugldder gynyddol mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi yn gywir er mwyn cyfleu'r stori yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y meithrin yn creu marciau yn fuan ar ôl cychwyn yn yr ysgol gan ddangos medrau echddygol manwl priodol. Maent yn adeiladu'n llwyddiannus ar y medrau hyn ar draws y cyfnod sylfaen ac, erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n fedrus. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu cyfres o frawddegau syml i ail-ddweud stori ac yn cofnodi archeb cwsmeriaid yn y caffi. Maent yn atalnodi a sillafu'r mwyafrif o eiriau cyffredin yn gywir ac yn defnyddio berfau cryno yn naturiol i amrywio brawddegau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith. Maent yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn briodol, er enghraifft, i ysgrifennu dyddiadur i grynhoi teimladau faciwî yn symud i Gymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o ansoddeiriau, cymariaethau a throsiadau i gyfoethogi eu gwaith yn llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, nid yw llawysgrifen a chyflwyniad gwaith mwyafrif y disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn ddigon taclus.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae gan lawer afael sicr ar ffeithiau rhif i 100. Maent yn defnyddio unedau safonol ac ansafonol yn gadarn wrth fesur olion traed i ddatrys problem 'pwy oedd y lleidr?'. Mae eu dealltwriaeth o nodweddion siapau 2D a 3D yn gadarn ac mae llawer yn defnyddio geirfa fathemategol yn hyderus i drafod eu gwaith.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu

yn dda.  Ym Mlwyddyn 4 mae llawer yn talgrynnu i'r deg, cant a mil agosaf yn gysurus.  Maent yn casglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol ar wahanol ffurfiau i gefnogi gwaith ar draws y cwricwlwm.  Enghraifft o hyn yw paratoi a chreu rhestr prisiau i'w siop nwyddau ar sail ymchwil i gost adnoddau craidd.  Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws y cyfnod sylfaen yn datblygu ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn eu  cymhwyso yn hyderus ar draws y meysydd dysgu.  Er enghraifft, maent yn creu graffiau i ddangos y gwahanol fathau o dai mae disgyblion y dosbarth yn byw ynddynt.  O oed ifanc, mae disgyblion yn defnyddio gwahanol apiau'n fwriadus, er enghraifft wrth greu llyfr sain yn seiliedig ar guddfan anifeiliaid arbennig.

Yn gyffredinol, mae medrau TGCh disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n briodol ar y sylfaen hon.  Mae llawer yn ymchwilio i wybodaeth, a'i chyflwyno,  yn bwrpasol wrth ymchwilio i hanes y Rhufeiniaid ac arweinwyr crefyddol.  Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gymwys o sut i ddefnyddio taenlenni wrth fodelu i'r lefel briodol, ac ansicr yw eu gafael ar ddefnyddio cronfa ddata.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi cefnogaeth gadarn yr athrawon a'r cymorthyddion.  Mae ganddynt hyder a ffydd yn yr oedolion yn yr ysgol i ofyn am gyngor ac arweiniad.  Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'u hunain yn ddiogel ar lein, ac maent yn trafod peryglon a allai godi mewn modd deallus.  Mae ymddygiad bron pob un disgybl yn dda yn ystod gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol o gwmpas yr ysgol.  Maent yn gwrtais, ac yn dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac o gadw'n heini.  Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff allgyrsiol, gan gyrraedd safonau uchel yn genedlaethol, er enghraifft mewn gweithgareddau gymnasteg, pêl droed a phêl rwyd.

Mae llais y disgybl trwy waith y cyngor ysgol yn datblygu'n briodol.  Mae'r aelodau'n dechrau cywain barn eu cyd-ddisgyblion ac yn trafod eu safbwyntiau'n aeddfed yn eu cyfarfodydd.  Maent yn cynllunio gweithgareddau i godi arian tuag at elusennau, ac mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion rhai sy'n llai ffodus o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.  Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwerthfawrogi gwaith y 'ffrindiau ffeind' ar y maes chwarae, gan fod hyn yn galluogi iddynt chwarae gydag eraill a chael hwyl.  Fodd bynnag, nid yw llais y disgybl wedi datblygu'n llawn eto i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi gan ymroi i'r dysgu yn syth.  Maent yn cefnogi dysgu ei gilydd yn effeithiol yn y gwersi ac yn barod i helpu eraill i ddysgu.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n effeithiol wrth ymwneud â'u gweithgareddau.  Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ymgymryd â'u tasgau a'r gweithgareddau yn annibynnol ac yn herio'u hunain yn llwyddiannus.  Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dyfalbarhau wrth ddatrys problemau a defnyddio medrau meddwl gan ddechrau ymateb yn gadarnhaol i'r anogaeth i fentro

heb ofni gwneud camgymeriad. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 4 yn cyfoethogi eu dealltwriaeth fathemategol o onglau trwy ddefnyddio iaith rheoli i greu gwahanol siapau efo 10 ochr. Mae llawer o ddisgyblion yn gwirio eu gwaith yn ôl meini prawf llwyddiant, er enghraifft yn y cyfnod sylfaen wrth werthuso codi cysgodfa.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol a gwybodus gydag ymwybyddiaeth gadarn o degwch a goddefgarwch. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gynyddol o hawliau'r plentyn a'r gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Maent yn egluro pwysigrwydd ymddygiad da ac yn annog eu cyd-ddisgyblion i fod yn garedig, i ddyfalbarhau yn eu dysgu ac i fod yn uchelgeisiol. Mae hyn yn sbarduno disgyblion i feddwl am fyd a gwaith tu hwnt i'w cynefin, er enghraifft trwy astudio i fod yn balaeontolegydd.

Yn gyffredinol, mae presenoldeb y disgyblion yn gwella. Fodd bynnag, nid yw eto'n cymharu'n ddigon ffafriol ag ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn sefydlu amgylchedd ddysgu ddiogel lle mae parch amlwg rhwng disgyblion ac athrawon. Mae hyn yn helpu i greu awyrgylch lle mae disgyblion yn barod i weithio'n galed a gwneud eu gorau.

Mae athrawon ac arweinwyr yn darparu profiadau dysgu priodol a diddorol. Maent yn defnyddio eu dealltwriaeth gynyddol o'r cwricwlwm sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Cymru ochr yn ochr â'r cwricwlwm cenedlaethol cyfoes. Er enghraifft, wrth gynllunio, maent yn meddwl yn ofalus ynghylch pa mor dda y bydd y cyfleoedd dysgu yn cyfrannu at gynnydd disgyblion tuag at gyflawni pedwar diben y cwricwlwm newydd. Yn ddiweddar iawn, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu ethos lle mae disgyblion yn cael rhyddid i fentro a pheidio â bod ofn gwneud camgymeriad, gan annog disgyblion i ddysgu trwy gamgymeriadau. Mae disgyblion yn ymateb i hyn yn gadarnhaol iawn ac maent yn barod i wneud eu gwaith yn annibynnol.

Mae'r athrawon yn rhannu nod y wers gyda'r disgyblion yn gyson ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r disgyblion adolygu a gwerthuso eu gwaith. Maent yn esbonio'r tasgau'n glir ac yn holi'n bwrpasol er mwyn sicrhau bod pawb yn deall. Mae staff yn rhoi adborth buddiol i'r disgyblion am sut i wella eu gwaith ymhellach O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu'r medrau i hunanwella'n effeithiol.

Mae bron pob athro'n cyflwyno gwersi yn fedrus ac yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Maent yn modelu iaith yn effeithiol ac mae hyn yn cryfhau medrau llafar y disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, yn arbennig wrth gyd-gynllunio ar draws dau ddosbarth o'r un oed. Yn gyffredinol, mae athrawon a'r cymorthyddion dosbarth yn cydweithio'n llwyddiannus. Mae hyn yn cynnig cymorth buddiol i ddisgyblion yn unol â'u hanghenion ac yn eu galluogi i gwblhau eu tasgau a gwneud cynnydd.

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar ddechrau pob thema i'r disgyblion gynnig syniadau am yr

hyn yr hoffent ei ddysgu. Yn ddiweddar, maent wedi holi rhieni hefyd am syniadau am yr hyn fyddai'n ddiddorol i ddisgyblion ddysgu am thema arbennig. O ganlyniad, derbyniwyd syniadau defnyddiol er mwyn astudio elfen leol yn gysylltiedig â'r Ail Ryfel Byd.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang sy'n ysbrydoli'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn gwneud defnydd llwyddiannus o gynllun masnachol i gynnig profiadau sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac wedi ei gyfoethogi â hanes lleol. Enghreifftiau o hyn yw trefnu ymweliadau i gestyll lleol a Chaer Segontium. Gwneir defnydd pwrpasol iawn o arbenigwyr lleol i ennyn diddordeb y disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn elwa o fewnbwn gan archeolegwr lleol enwog i ddatblygu medrau ymchwiliol hanes wrth astudio dinosoriaid. Yng nghyfnod allweddol 2, gwneir defnydd o wyddonydd sy'n gweithio i gwmni rhyngwladol wrth ddysgu am ynni fel ffocws o fewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Fodd bynnag, prin yw'r ddarpariaeth ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol ar wahân i chwaraeon.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol y disgyblion. Mae cyfleoedd cyson i ddatblygu, mireinio a pherfformio eu gwaith cerdd a gymnasteg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celf y disgyblion hefyd yn gadarn iawn a chyfoethogir hyn trwy astudio ac efelychu gwaith artistiaid enwog lleol. Mae'r prosiect celf ar y cyd ag Ysgol yr Hendre ym Mhatagonia, gan gynnwys creu murluniau o hanes lleol, wedi cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n llwyddiannus.. Mae'r athrawon yn darparu amgylchedd ddysgu gynhyrchiol ac yn cynllunio profiadau dysgu creadigol y tu fewn a thu allan i fodloni anghenion a diddordebau'r disgyblion. Mae'r staff yn ysgogi disgyblion i ddarganfod a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn. Maent yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu profiadau ysgogol a diddorol iddynt, er enghraifft yn seiliedig ar ddinosoriaid.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnig cyfleoedd digon cyson iddynt ddatblygu'r ystod lawn o fedrau TGCh ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn darparu'n dda iawn ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion bregus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae systemau cadarn iawn gan yr ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ac mae staff yn gwneud defnydd trylwyr a phwrpasol o'r wybodaeth. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn adnabod unigolion a grwpiau penodol sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar. Mae staff yn defnyddio'r gweithdrefnau hyn yn effeithiol i ddarparu addysg a chefnogaeth bwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r gefnogaeth i'r disgyblion mwyaf bregus yn nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol. Maent yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol yn effeithiol iawn. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cynllun magwraeth i'r disgyblion sy'n mynychu sesiynau yn yr 'Hafan' o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymateb i anghenion plant a rhieni sydd wedi profi profedigaeth yn sensitif iawn drwy gynnig sesiynau cefnogi wythnosol am gyfnod penodedig.

Mae'r gefnogaeth i'r plant ag anghenion meddygol a synhwyrol yn gryfder yn y ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r gofal gan y cymorthyddion i blant ag anghenion clyw a golwg. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r ffordd mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd asiantaethau allanol i gefnogi'r disgyblion a'u teuluoedd yn effeithiol. Mae'r cyswllt cryf sy'n bodoli gyda'r heddlu yn cyfrannu'n werthfawr tuag at ddealltwriaeth disgyblion o beryglon cyffuriau a bod yn ddiogel ar-lein.

Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol pwrpasol. Mae'r ysgol wedi rhoi ffocws clir iawn ar ddatblygu partneriaeth gref ac agored gyda rhieni'r disgyblion hyn gan sefydlu trefn gartrefol sy'n eu hannog i gyfrannu i'r broses. Nodwedd lwyddiannus o'r broses o lunio targedau pwrpasol ar gyfer creu cynlluniau addysg unigol yw'r ffordd mae'r ysgol yn annog i bawb gyfrannu. Mae staff yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni gan addasu yn ôl yr angen. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion a'r rhieni yn deall beth sydd angen ei wneud i wella.

Mae'r ysgol yn darparu'n briodol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol a moesol disgyblion trwy drefnu cyfleoedd iddynt fyfyrio mewn sesiynau cydaddoli. Mae'r staff yn annog a meithrin plant i gyfathrebu eu teimladau yn llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn yn eu galluogi i adnabod y gwahaniaeth rhwng da a drwg ac i gydweithio a pharchu safbwyntiau ei gilydd o fewn amgylchedd gofalgar a chynhwysol. Enghraifft o hyn oedd trafodaeth dreiddgar rhwng dau ddisgybl ym Mlwyddyn 4 yn ystod myfyrdod yn y gwasanaeth dosbarth. Roedd un yn teimlo i'r byw'r anghyfiawnder a'r diffyg cydraddoldeb mewn gwledydd sy'n datblygu pan nad oes masnach deg yn bodoli. Fodd bynnag, mae datblygiad addysg grefyddol yn anghyson ar draws yr ysgol ac, o ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cael digon o brofiadau pwrpasol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion. Darpara'r ysgol ystod fuddiol o weithgareddau chwaraeon sy'n hyrwyddo iechyd a ffitrwydd yn dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau lles y disgyblion. Mae disgyblion yn elwa o gysylltiadau cryf gyda'r clybiau pêl-droed a rygbi yn y dre yn ogystal â chysylltiadau cryf gydag archfarchnad a chartref i'r henoed yn y dre. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymfalchïo yn eu hardal.

Mae darpariaeth yr ysgol i baratoi disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol trwy wneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol yn datblygu'n addas. Mae trefniadau yn helpu disgyblion yn llwyddiannus iawn i wneud penderfyniadau yn y dosbarth sy'n dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu. Fodd bynnag nid yw'r ddarpariaeth wedi sicrhau bod llais y disgybl wedi datblygu'n llawn i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn gorarwain y cyngor ysgol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol arnynt.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion gyda'r sir ond nid yw eu hymdrechion i godi cyfradd y presenoldeb wedi cael digon o effaith eto.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth a'r arweinwyr weledigaeth glir a chadarn iawn ar gyfer datblygu'r ysgol yn gymuned dysgu lwyddiannus trwy ddarparu addysg a gofal lles

uchel i bob disgybl. Mae'r weledigaeth wedi ei seilio ar godi safonau, datblygu hyder, annibyniaeth a lles disgyblion. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu ac asio tîm arwain hynod effeithiol gan osod cyfeiriad strategol pendant. Maent yn rhannu hyn yn llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion. Mae gan aelodau'r uwch dîm rheoli ddisgwyliadau uchel o'u hunain ac eraill. Maent yn defnyddio'u harbenigedd yn fedrus i sicrhau cefnogaeth ac anogaeth i staff ymrwymo'n llwyr i'r weledigaeth. Mae bron pob aelod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn datblygu'n effeithiol fel tîm.

Mae arweinwyr yn annog staff i ymgymryd â dysgu proffesiynol yn llwyddiannus o fewn yr ysgol a thrwy ystod o rwydweithiau buddiol gydag ysgolion ar draws y rhanbarth. Enghraifft dda o hyn yw'r hyfforddiant a roddir gan aelodau o'r uwch dîm rheoli ar sut i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu. Mae hyn wedi galluogi'r holl staff i ddefnyddio'r arferion hyn yn fwy hyderus gyda'r disgyblion, yn ogystal â datblygu hyder a medrau arweinyddiaeth yr arweinwyr.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol iawn i ran fwyaf o flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cychwyn arbrofi gyda chynllunio yn seiliedig ar bedwar diben y cwricwlwm newydd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i reoli perfformiad athrawon ac, yn fwy diweddar, y cynorthwywyr. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth i wireddu blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ynghyd ag anghenion proffesiynol unigolion. Hyfforddir ychydig o gynorthwywyr dysgu yn effeithiol i gefnogi disgyblion unigol a grwpiau penodol o ddisgyblion ar amrywiaeth o ymyraethau a strategaethau. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar les a safonau'r unigolion hyn ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae staff 'Yr Hafan' wedi derbyn hyfforddiant ar 'fagwraeth' er mwyn diwallu anghenion disgyblion penodol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf iawn o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau a lles disgyblion ynghyd â'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o safbwyntiau a mewnbwn rhieni yn dymhorol fel rhan o'i gweithdrefnau hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys llais y disgybl yn ddigon effeithiol yn y broses hyd yn hyn.

Mae arweinwyr wedi mireinio'r prosesau yn fedrus er mwyn sicrhau eu bod yn arfarnu'r elfennau pwysicaf. Mae'r gweithdrefnau yn drylwyr ac yn galluogi arweinwyr i nodi, monitro ac arfarnu perfformiad yr ysgol yn effeithiol. Maent yn defnyddio ystod eang o ddata cyflawniad a chynnydd disgyblion yn llwyddiannus fel rhan o'r broses hon. O ganlyniad, mae arweinwyr ac athrawon yn targedu a herio disgyblion unigol yn ogystal ag adnabod unrhyw batrymau o dangyflawni ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi llwyddo i wella medrau rhifedd disgyblion.

Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r weithdrefn hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r ddogfen hon yn gynhwysfawr ac yn cynnwys fersiwn gryno effeithiol ar gyfer staff a llywodraethwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio gwaith ymchwil gweithredol yn dda er mwyn cefnogi eu camau gweithredu. Fodd bynnag mae'n rhy fuan i weld effaith lawn y prosesau gwella ansawdd ar ddeilliannau'r ysgol.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol i’r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o safonau a chyflawniad disgyblion. Maent yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr gan y pennaeth a chyflwyniadau gwerthfawr gan staff ar elfennau penodol o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau o’r corff yn cyfrannu'n fuddiol tuag at arwain cyfeiriad strategol i’r ysgol ac yn cynnal teithiau dysgu a siarad â disgyblion a staff yn rheolaidd. Mae hyn oll yn datblygu eu dealltwriaeth o waith yr ysgol yn briodol, ac yn eu galluogi i herio’r ysgol.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus iawn ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau ar gyfer gwelliant. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi disgyblion bregus ar draws yr ysgol ac yn benodol yn ‘Yr Hafan’.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/12/2018